

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Adran Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Data Mis Ebrill 2017 hyd at Fis Mawrth 2018:

Cyrsiau a gyflawnwyd (Ebrill i ddiwedd Gorffennaf 2017):

Datblygu Syniadau Trwy Baent	Camau TG Cyntaf
Cyfarwyddo â'r We	Cyflwyniad i Ddarlunio
Cyfathrebu – Paratoi ar gyfer Cyfweiliad	Darllen Gwefusau
Gwella Eich Rhifedd	Gwella Sgiliau Llythrennedd
Gwella Eich Llythrennedd	Gwella Sgiliau Rhifedd

Asesiad cyflawni yn seiliedig ar angen/cais dysgwyr:

Ni allai 88% o ddysgwyr siarad Cymraeg na darllen/ysgrifennu yn Gymraeg

Roedd 6% yn siaradwyr Cymraeg rhugl ond wedi nodi bod yn well ganddynt ddysgu trwy gyfrwng y Saesneg

Roedd yn well gan 6% beidio dweud

Cyflwynwyd yr holl gyrsiau trwy gyfrwng y Saesneg, doedd dim un cais i'w cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y dysgwyr i gyd mai Saesneg oedd yr iaith dysgu a ffefrid ganddynt felly fe atebon ni'r galw yma trwy ddarparu trwy gyfrwng y Saesneg er y cafodd peth cynnwys Cymraeg ei gynnwys yn y Datblygu Syniadau Trwy Baent.

Cyrsiau a Gyflawnwyd (Awst i ddiwedd Rhagfyr 2017):

Cyflwyniad i Bortreadu	Cyfarwyddo â'r We
Camau TG Cyntaf	Paratoi i Weithio Mewn Warws
Manwerthu Cyn-gyflogaeth	Gwneud Synnwyr o Daenlenni
Camau TG Cyntaf Rhan 1	Camau TG Cyntaf Rhan 2

Asesiad cyflawni yn seiliedig ar angen/cais dysgwyr:

Ni allai 82% o ddysgwyr siarad Cymraeg na darllen/ysgrifennu yn Gymraeg

Roedd 1% yn siaradwyr Cymraeg rhugl ond wedi nodi bod yn well ganddynt ddysgu trwy gyfrwng y Saesneg

Ar gyfartaledd dywedodd 9% o ddysgwyr eu bod yn medru rhywfaint o Gymraeg ond ddim yn rhugl.

Roedd yn well gan 8% beidio dweud

Cyflwynwyd yr holl gyrsiau drwy gyfrwng y Saesneg ac ni dderbynion ni geisiadau i'w cyflwyno'n Gymraeg, er y byddai rhywfaint o gynnwys Cymraeg wedi bod yn y Cyflwyniad i Bortreadu.

Cyrsiau a gyflawnwyd (Ionawr 2018 i ddiwedd Mawrth 2018):

Gwella Eich Rhifedd	Paratoi ar gyfer Gwasanaeth CC Llawn
Camau TG Cyntaf Rhan 1	Camau TG Cyntaf Rhan 2
Gwneud Synnwyr o Daenlenni	Gwneud Gwell Defnydd o E-byst
Cyfarwyddo â'r We	Darllen Gwefusau
Troi Talent yn Incwm – Sefydlu eich Busnes Bach neu Ddiwydiant Bwthyn	Galw Heibio Digidol

Asesiad cyflawni yn seiliedig ar angen/cais dysgwyr:

Ni allai 83% o ddysgwyr siarad Cymraeg na darllen/ysgrifennu yn Gymraeg

Roedd 0% yn siaradwyr Cymraeg rhugl ond wedi nodi bod yn well ganddynt ddysgu trwy gyfrwng y Saesneg

Ar gyfartaledd dywedodd 11% o ddysgwyr eu bod yn medru rhywfaint o Gymraeg ond ddim yn rhugl. Roedd yn well gan 6% beidio dweud.

Cyflwynwyd yr holl gyrsiau trwy gyfrwng y Saesneg, doedd dim un cais i'w cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg.